Cynllun Gwers – Dylanwadwyr

Nodiadau

Nod y wers:

Gwers PowerPoint yw hon sy'n esbonio beth yw dylanwadwr, beth mae'n ei wneud, sut mae'n gwneud arian a rhai pethau i'ch disgyblion fod yn wyliadwrus ohonyn nhw wrth wylio crewyr ar blatfformau fel Twitch, Instagram neu YouTube.

Nodiadau'r Athro:

Dyma ble rydyn ni'n rhoi rhywfaint o wybodaeth allweddol i chi fel y gallwch chi ymddangos *hyd yn oed yn fwy clyfar* yn llygaid eich disgyblion.

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn fan lle mae pobl yn gallu dod yn enwog dros nos neu'n frandiau mawr diolch i'w dilyniant cynyddol. Dros amser, mae'r bobl a'r busnesau hyn yn cyrraedd lefel uchel iawn, ac yn cael eu hadnabod fel "dylanwadwyr". Mae dylanwadwr ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddefnyddiwr sydd wedi sefydlu hygrededd mewn diwydiant penodol, sydd â mynediad at gynulleidfa enfawr ac sy'n gallu darbwyllo eraill i weithredu ar sail ei argymhellion. Mae hyn yn gallu bod yn her i bobl iau hawdd gwneud argraff arnyn nhw sy'n agored i'r ymddygiadau cadarnhaol a negyddol sy'n cael eu dangos gan ddylanwadwyr.

Cynllun gwers

Adnoddau:
Powerpoint Dylanwadwyr, Geiriaduron (neu Dictionary.com)

Amcanion dysgu:

- Adnabod gwahanol ddylanwadwyr a'u henwau 'fandom'.
- Deall beth yw dylanwadwr cymdeithasol a beth mae'n ei wneud.
- Deall sut mae dylanwadwyr yn gwneud arian.

Addysgu:

Sleid 1 Tudalen deitl

Sleid 2 Amcanion dysgu

Sleid 3 Her geiriadur **(geiriaduron ar y bwrdd neu dictionary.com ar lechi – mae disgyblion yn cael cyfle i ymarfer sgil Llythrennedd pwysig)**
Rhaid i ddisgyblion chwilio am y diffiniad o ddylanwad.

©Ineqe Group Ltd. 2020

Diffiniad geiriadur Rhydychen o 'dylanwad' neu ‘infleunce’ yw ‘the capacity to have an effect on the character, development, or behaviour of someone or something, or the effect itself’.

Sleid 4 Gêm dyfalu'r enw 'fandom' (Gadewch i'r gerddoriaeth chwarae ac i Freddie ddarllen teitl y gêm) Gofalwch eich bod chi'n tapio/clicio ar gornel dde uchaf y sleid i symud ymlaen.
Gwahoddwch ddisgybl i fyny i'r bwrdd i glicio ar yr enw cywir ar gyfer enw 'fandom' pob person enwog. Os bydd yn ei gael yn anghywir, bydd swnyn yn seinio **(Mae'r sleidiau rhwng pob dylanwadwr yn cynnwys yr animeiddiad "cywir")**.

Sleid 5 Justin Bieber - Beliebers

Sleid 7 Taylor Swift – Swifties

Sleid 9 Jake Paul – Jake Paulers

Sleid 11 Beyonce – Bey Hive

Sleid 13 Lady Gage – Little Monsters

Sleid 15 Ariana Grande - Arianators

Sleid 17 Beth yw dylanwadwr?
Dylanwadwr yw rhywun sydd â dilyniant mawr ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n gallu 'dylanwadu' ar ei gynulleidfa.
Mae dylanwadwyr yn bodoli ar lawer o blatfformau, ond y prif blatfformau yw Instagram, Snapchat a YouTube.
Allwch chi feddwl am ragor o enghreifftiau?
- *Pobl sy'n dadbacio teganau, actorion rhaglenni teledu realiti, flogwyr YouTube, enwogion Instagram a blogwyr harddwch, chwaraewyr castiau (*prankster*).*

Gall disgyblion awgrymu dylanwadwyr maen nhw'n eu dilyn neu'n eu gwylio eu hunain – Zoella, Ninja ac ati.

Sleid 18 Beth maen nhw'n ei wneud?
- *Dylanwadwr yw rhywun sy'n gallu 'dylanwadu' ar ymddygiad ei gynulleidfa.*
- *Gall gael ei noddi hefyd i hyrwyddo cynhyrchion penodol (byddwn yn edrych ar hyn yn y man).*
- *Mae dylanwadwyr yn gallu bod yn ddifyr, ond maen nhw'n gallu rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ni hefyd.*

Sleid 19 Pethau Cadarnhaol a Negyddol
Pethau Cadarnhaol
- *Maen nhw'n gallu annog ymddygiad cadarnhaol ac ymgysylltiad â grwpiau ysgolion a chyfeillgarwch.*
- *Maen nhw'n gallu ein hysbrydoli mewn maes o ddiddordeb e.e. ffitrwydd, ffasiwn a gemau.*

Pethau Negyddol
- *Ond maen nhw hefyd yn gallu dangos ymddygiadau niweidiol fel ysmygu, yfed, iaith anweddus a safonau corff nad ydyn nhw o fewn cyrraedd.**

**Mae safonau corff nad ydyn nhw o fewn cyrraedd yn cyfeirio at bobl ifanc yn cymharu eu cyrff â'r hyn maen nhw'n ei weld yn y cyfryngau, gan gynyddu eu siawns o fod â delwedd corff gwael.*

Sleid 20 Allwch chi weld yr hysbysebion?

Sgrinluniau o fideos YouTube Zoella a ffrwd Instagram Cristiano Ronaldo.

Nodwch y gwahanol gynhyrchion rydych chi'n eu gweld e.e. Pizza Hut, ASOS ar ffrwd Zoella / triniaeth colli gwallt ac yswiriant Herbalife ar ffrwd Ronaldo. Gofynnwch i'ch disgyblion: ydych chi'n meddwl eu bod nhw'n hysbysebu'r pethau hyn am ddim?

Sleid 21 Sut mae dylanwadwyr yn gwneud bywoliaeth

- *Bydd brandiau'n gweithio gyda dylanwadwyr ac yn eu talu nhw neu'n rhoi cynhyrchion, gwasanaethau neu brofiad am ddim iddyn nhw yn gyfnewid am hyrwyddo eu cynhyrchion (fel Zoella a Ronaldo ar y sleid flaenorol). Efallai nad ydyn nhw'n credu'n llawn yn y cynnyrch hyd yn oed.*
- *Bydd dylanwadwyr YouTube sydd â dilyniant mawr hefyd yn cael arian o'r hysbysebion sydd ynghlwm wrth eu fideos. Bydd cwmnïau'n talu arian mawr am yr hysbysebion rydyn ni fel arfer yn eu sgipio cyn gwylio ein hoff fideos gan ddylanwadwr.*

Sleid 22 Byddwch yn ymwybodol

1. *Mae'n gallu bod yn anodd i ni ddweud y gwahaniaeth rhwng cynnwys arferol a hysbysebu amlwg gan ddylanwadwyr rydyn ni'n eu dilyn a'u parchu. Dylen ni ofyn i ni'n hunain a yw'r fideo yn un hwyl yn unig neu a yw'r dylanwadwr yn ceisio gwerthu cynnyrch (yn gyfrwys).*
2. *Efallai na fydd rhai cynhyrchion yn addas nac yn briodol i ni. e.e. pils deiet neu de dadwenwyno/colli pwysau, neu gynhyrchion sydd ond yn addas i oedolion.*
3. *Weithiau, gallwn ni gael ein hannog (ein dylanwadu) i dalu, tanysgrifio neu ymuno â chymunedau eraill. Er enghraifft – prynu nwyddau neu dalu i danysgrifio i'w gwylio.*

Sleid 23 Pa ddylanwadau posibl allwch chi eu gweld?

Cyflwyniad - ar y sleid hon, mae post Instagram gan Kylie Jenner. Cymerwch 2 funud yn eich parau i gael sgwrs am rai o'r hysbysebion / dylanwadau posibl y gallwch chi eu gweld yn y fideo hwn.

1. *Hyrwyddo cynhyrchion "iechyd".* A yw'r 'powdwr deiet' hwn yn gweithio mewn gwirionedd? Mae'n dweud #ad – a yw hi wir yn credu yn y cynnyrch hwn neu a yw hi'n cael ei thalu LLAWER O ARIAN i'w hyrwyddo?
2. *Creu safonau corff nad ydyn nhw o fewn cyrraedd.* * Faint o amser a gymerodd hi i dynnu'r ddelwedd hon? I ba raddau mae'r ddelwedd wedi'i hidlo? A oes ganddi dîm o steilwyr? A yw hi wedi defnyddio 'photoshop'?
3. *Nifer y bobl sydd wedi ei hoffi.* Mae'r hysbyseb hon yn cyrraedd miliynau o bobl. Mae miliynau o bobl wedi ei hoffi – a yw hyn yn golygu ei fod yn gynnyrch da? Neu ai'r person sy'n ei hyrwyddo sy'n boblogaidd? HEFYD – mae'r "angen" i gael pobl i hoffi delweddau ar y cyfryngau cymdeithasol yn dod yn rhywbeth mae pobl ifanc yn ei ddymuno.

Sleid 24 Pa ddylanwadau posibl allwch chi eu gweld?

Cyflwyniad – mae'r dylanwadau efallai'n fwy cynnil na'r enghraifft flaenorol. Ar y sleid, mae ciplun o fideo YouTube 'It's Everyday Bro' gan y dylanwadwr Jake Paul. Cymerwch 2 funud yn eich parau i gael sgwrs am rai o'r hysbysebion / dylanwadau posibl y gallwch chi eu gweld yn y fideo hwn.

1. *Iaith sarhaus / rhegi – er ei bod hi'n anodd eu gweld yn y ciplun hwn. Bydd y rhai sydd wedi gwylio Jake Paul o'r blaen yn ymwybodol ei fod yn tueddu i regi tipyn. Ni ddylid normaleiddio iaith amhriodol, ac fe ddylen ni fod yn ymwybodol nad yw hon yn ffordd briodol o gyfathrebu.*
2. *OFC (brand dillad Jake Paul) - mae hyn yn reit gynnil. Os byddwn ni'n gweld rhywun rydyn ni'n ei wylio'n rheolaidd yn gwisgo brand penodol o ddillad, efallai y byddwn ni yn ein hisymwybod yn dechrau dymuno cael dillad tebyg. Mae hyn i'w weld ar y sleid flaenorol gyda thop Yves Saint Laurent Kylie Jenner. Byddwch yn ymwybodol o hyn.*

3. *Team 10 – sianel arall – er nad yw Team 10 yn boblogaidd mwyach, mae dylanwadwyr yn gallu dylanwadu arnon ni i wylio cynnwys o sianeli maen nhw'n gysylltiedig â nhw, gan adeiladu eu dilyniant.*
4. *Watsh Rolex – drwy osod/gwisgo eitemau moethus yn fideos dylanwadwyr, gallwn ni ddod yn fwy materol (dymuno pethau dim ond er mwyn eu cael nhw).*
5. *Lamborghini – yr un fath â'r uchod.*

Sesiwn i gloi:

Sleid 25: Pwyntiau allweddol

- Dylanwadwr yw rhywun sydd â phresenoldeb neu ddilyniant digon mawr ar y cyfryngau cymdeithasol i farchnata neu 'ddylanwadu' ar ei gynulleidfa gyda chynhyrchion.
- Mae dylanwadwyr yn gallu bod yn ddifyr ond maen nhw'n gallu rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i ni hefyd.
- Gallan nhw gael eu noddi hefyd i hyrwyddo cynhyrchion penodol.
- Mae dylanwadwyr yn gallu bod yn fodelau rôl da a gwael.

Sleid 26: Hunanasesiad

Bys bawd i fyny neu i lawr ar gyfer yr amcanion dysgu. Egluro unrhyw gwestiynau.

- Adnabod gwahanol ddylanwadwyr a'u henwau 'fandom'.
- Deall beth yw dylanwadwr cymdeithasol a beth mae'n ei wneud.
- Deall sut mae dylanwadwyr yn gwneud arian.

©Ineqe Group Ltd. 2020